

## Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at John H. Williams (Llanefydd) sydd bellach wedi cael ei symud i'r Inffirmari, a hefyd John Ll. Jones (Llansannan) fu'n cael triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd am ychydig ddyddiau yn ystod yr wythnos. Cyflwynwn y ddau i ofal yr Arglwydd, gan ofyn iddo gysgodi drostynt a thros eu hanwyliaid yn yr un modd. Hyderwn y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.
- Penblwydd hapus a phob dymuniad da i Mrs Elsie May Edwards (Llansannan) fydd yn 99 oed ddydd Mawrth nesaf. Diolchwn i Dduw amdani ac am bob gofal y mae'n ei gael.

## I ddod

- **CYMANFA GANU ANNIBYNWYR DYFFRYN CLWYD** dydd Sul, Mehefin 11eg yng Nghapel Pendref, Rhuthun am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2016-17. Arweinydd: Nia Edwards, Llangwm. Croeso i bawb.
- **PENWYTHNOS MERCHED** yn y Bala ar Mehefin 23ain-24ain. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk) / 01678 520565.
- **"LLWYBR MARI A'N LLWYBR NI"** – Mae Adran Is-bwyllgor y Chwiorydd EBC a Byd Mary Jones yn cydweithio i drefnu encil ar gyfer grwpiau o ferched. Bydd y diwrnod yn cynnwys cyfle i edrych ar agweddau gwahanol o fywyd a ffydd Mari, cyfle i wrando ar dystiolaethau gan bobl sy'n trysori Gair Duw heddiw, ac ymweliad â'r Ganolfan. Cynigir yr encil yn ystod y prynhawn ar un o'r dyddiau canlynol: *dydd Mawrth, Mehefin 27ain; neu dydd Mawrth, Gorffennaf 18fed*. Y pris yw £11 yr un yn cynnwys cinio a phaned yn y prynhawn. Mae lle i 30 ar gyfer pob sesiwn a fydd yn dechrau 11.45 tan 4.00. I archebu lle, cysylltwch â Nerys Siddall ar 01678 521877 neu ar ebost: [nerys.siddall@biblesociety.org.uk](mailto:nerys.siddall@biblesociety.org.uk)
- **DATHLU 150 MLYNEDD ERS SEFYDLU CAPEL LLANEFYDD A 10 MLYNEDD ERS ADDASU'R ADEILAD** – Oedfa Deuluol bore Sul, Gorffennaf 9fed am 10.30 o dan arweiniad y Parch. Ddr Rhodri Glyn. Cinio'r dathlu yn dilyn yn y neuadd. Os oes gennych luniau neu atgofion, a fydddech gystal â'u rhannu efo un o'r blaenoriaid erbyn Gorffennaf 1af os gwelwch yn dda?
- **RHAI O GYRSIAU HAF COLEG Y BALA:**
  - **Cwrs Ieuentid (i flynyddoedd 7 – 10):** Gorffennaf 31-Awst 4
  - **Anhrefn Awst (i blant 8-12 oed):** Awst 14-17
  - **Souled Out (15+):** Awst 19-24

*Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynd ar un o'r cyrsiau, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Cofiwch bod angen llenwi ffurflen i archebu lle, a'i hanfon ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan ag sydd bosibl.*



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 28<sup>ain</sup> Mai 2017

Darlleniad y Dydd

Salm 110

(BCND tud.556 / BCN tud.508)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da i chi gyd a chroeso cynnes (cynnes iawn efo'r tywydd yma!) i'r gwasanaethau ar hyd y Fro. Gofynnwn y bydd Duw yn ein bendithio heddiw ac yn caniatáu i ni ddod i'w adnabod yn well wrth i ni ddod o dan awdurdod Ei Air bywiol.

Ein Salm yr wythnos yma – Salm 110 – yw'r un sy'n cael ei dyfynnu amlaf yn y Testament Newydd. Rŵan, does dim gwobr, ond os oes unrhyw un yn gallu dweud ymhle mae'r dyfyniadau, fe gewch 50 pwynt. Felly, atebion ar gerdyn post, os gwelwch yn dda!

Y rheswm mae'r Salm yn cael ei dyfynnu mor aml ydy oherwydd ei bod hi'n sôn am y Meseia, Iesu – fod Duw yn mynd i'w roi i eistedd ar ddeheulaw Duw, y sedd anrhydedd, gyda'i holl elynion yn stôl dan ei draed. Mae'r darlun yna o Grist yn un pwerus iawn. Mae'r Duw a greodd yr holl fydsawd ac sy'n haeddu'r holl glod, yn codi Iesu Grist i'r lle mwyaf anrhydeddus. Am ba reswm wnaeth Duw hyn? Oherwydd iddo wneud yn OK? NAGE! Mae Crist yn y lle anrhydeddus yma oherwydd ei fod wedi ennill y frwydr yn erbyn pechod. Aeth ar groes Calfarina yn wirfoddol a choncro pechod ar ein rhan. Tybed a ydym ni'n sylweddoli hynny? Ydym ni'n sylweddoli ein bod ni'n dilyn yr un sy'n fuddugoliaethus? Mae mor hawdd i ni gymryd geiriau fel 'Arglwydd' a 'Brenin' yn ganiataol a cholli golwg ar yr hyn maent yn ei olygu yn ein byd heddiw.

Mae hyn yn berthnasol yr wythnos yma ar ôl y drychineb erchyll ym Manceinion. Rydym ni'n byw mewn byd lle mae pechod ym mhob man, ble mae pobl sy'n credu mewn drygioni yn twyllo pobl eraill i'w dilyn i'r tywyllwch. Fel Cristnogion, rydym yn credu fod Iesu yn fuddugol dros bechod. Ac ER bod pechod yn dal yn y byd, trwy ddod at Grist, fe gawn ein rhyddhau o afael y pechod hwnnw. O ganlyniad, rydym yn gallu cyflwyno'r holl bobl sydd wedi cael eu heffeithio gan y drychineb i ddwylo pur ein Duw, gan ymddiried y bydd yn cysuro'r rhai mewn poen ac yn codi'r rhai sydd yn isel (Nahum 1:7).

Wrth aros yn ffyddlon yng ngrym Iesu fel Arglwydd a Brenin, gallwn aros yn hyderus am y dydd pan y "bydd pob glin yn plygu i enw Iesu – pawb yn y nefoedd, ar y ddaear, a than y ddaear, a bydd pawb yn cydnabod mai Iesu Grist ydy'r Arglwydd, ac yn rhoi clod i Dduw y Tad." (Philipiadaid 1:10-11)

**DILYNWCH NI:** [@eglwysibroaled](https://twitter.com/eglwysibroaled)

Gwion

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

Sul yma – 28<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah, a bydd Rhodri yn pregethu.

Sul nesaf – 4<sup>ydd</sup> ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion, a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma – 28<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Sul nesaf – 4<sup>ydd</sup> ➤ Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a chynhelir yr Ysgol Sul yno am 2.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 11.00.

### Llansannan a Nantglyn

Sul yma – 28<sup>ain</sup> ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.

➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Sul nesaf – 4<sup>ydd</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu yn Llansannan am 10.00 ac yn ystod yr oedfa yn bedyddio Llio Glyn a Rhys Glyn, efeilliaid bach Elliw ac Eryl Williams. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.

➤ Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

### Henllan a Groes

Sul yma – 28<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Sul nesaf – 4<sup>ydd</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

Sul yma – 28<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Sul nesaf – 4<sup>ydd</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Yn dilyn yr oedfa, darperir cinio am £6.00 yn y festri i godi arian at y Capel. Mae croeso i unrhyw un ond i chi roi eich enw i Nerys (01745 816673) neu Helen (01745 550276) erbyn Mehefin 1<sup>af</sup>, os gwelwch yn dda. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma – 28<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00.

Sul nesaf – 4<sup>ydd</sup> ➤ Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd yr Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghefn Berain.

### Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

*Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

### Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

### Darlleniad Wythnos Nesaf

*Actau 2:14-21 (BCND tud.130 / BCN tud.119)*